# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 5

CYD-DDEILIAID CONTRACT A CHYD-LANDLORDIAID

*Cyd-ddeiliaid contract*

### 48 Cyd-ddeiliaid contract: cyd-atebolrwydd etc.

(1) Os oes dau neu ragor o gyd-ddeiliaid contract o dan gontract meddiannaeth, mae pob cyd-ddeiliad contract yn llwyr atebol i'r landlord am gyflawni pob rhwymedigaeth sy'n ddyledus i'r landlord o dan y contract.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at ddeiliad y contract, ac eithrio pan ddarperir fel arall, yn gyfeiriadau at gyd-ddeiliaid y contract.

(3) Mae is-adran (2) yn gymwys hyd yn oed os yw'r contract meddiannaeth yn denantiaeth a'r ystad lesddaliol wedi ei breinio yn un neu ragor, ond nid ym mhob un, o gyd-ddeiliaid y contract.

### 49 Ychwanegu cyd-ddeiliad contract

(1) Caiff deiliad y contract o dan gontract meddiannaeth a pherson arall, gyda chaniatâd y landlord, wneud y person arall hwnnw yn gyd-ddeiliad contract o dan y contract.

(2) Os gwneir person yn gyd-ddeiliad contract o dan yr adran hon bydd ganddo'r hawl i'r holl hawliau, a bydd yn ddarostyngedig i holl rwymedigaethau deiliad contract o dan y contract o'r diwrnod y daw'n gyd-ddeiliad contract.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth.

## 50 Ychwanegu cyd-ddeiliad contract: cydsyniad landlord

Pan fo landlord yn gwrthod cydsynio i ychwanegu cyd-ddeiliad contract o dan adran 49, neu'n cydsynio yn ddarostyngedig i amodau, mae'r hyn sy'n rhesymol at ddibenion adran 84 (cydsyniad landlord) i'w benderfynu gan roi sylw i Atodlen 6.

## 51 Ychwanegu cyd-ddeiliad contract: materion ffurfiol

(1) Ni ellir ychwanegu cyd-ddeiliad contract o dan gontract meddiannaeth ond drwy ddogfen wedi ei llofnodi neu ei chyflawni gan bob un o'r partïon i'r trafodiad.

(2) Os yw'r contract yn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y landlord i'r ychwanegiad, rhaid i'r landlord lofnodi neu gyflawni'r ddogfen hefyd.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw'r landlord yn cael ei drin fel pe bai wedi cydsynio o dan adran 84(6), (8) neu (10).